# TRAFNIDIAETH CYMRU DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

*CHWARTER 01 2024/25*

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CYFLWYNIAD

Yn Trafnidiaeth Cymru, rydym am gael ein dewis fel hoff ffordd Cymru o deithio. Mae'n rhaid i ni adeiladu rhwydwaith teithio cynaliadwy ar ran y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.  Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni fod yn agored ac yn dryloyw yn ein dull gweithredu. Mae cyhoeddi'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn gam pwysig tuag at hyn. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau ymddiriedaeth cwsmeriaid, cymunedau a rhanddeiliaid ynom.

Mae ein dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u rhannu'n bum maes allweddol, (diogelwch, cwsmeriaid, pobl, cyllid a chynaliadwyedd) sy'n adlewyrchu cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru.

Mae dangos cynnydd yn yr holl feysydd hyn yn flaenoriaeth i ni. Mae pob un yn mesur pa mor agos ydym at gyflawni'r cylch gwaith a osodwyd gennym gan Lywodraeth Cymru. Gallwch ddarllen y blaenoriaethau hyn yn ein cynllun busnes a'n strategaeth gorfforaethol.

Bydd ein dangosyddion perfformiad allweddol yn datblygu wrth i ni gyflawni ein cylch gwaith.

## Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol




| | Dangosyddion Perfformiad Allweddol | Nodau Llesiant | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| Diogelwch | Diogelwch cydweithwyr | | ■ | ■ | | | | |
| | Digwyddiadau Diogelwch fesul 100,000 o Deithiau a gymerir gan Deithwyr | | ■ | ■ | | | | |
| Cwsmeriaid | Boddhad Cwsmeriaid | ■ | | | | ■ | | |
| | Cwynion fesul 100,000 o Deithiau Trên | ■ | | | | ■ | | |
| | Teithiau Trên a gymerir gan Deithwyr | ■ | | | | ■ | | |
| | Prydlondeb ar Linellau Craidd y Cymoedd (o fewn 3 munud) | ■ | | | | ■ | | |

Fel corff a enwir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi cysoni ein dangosyddion perfformiad allweddol â'r saith nod llesiant.

Mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol o leiaf yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym ni nawr. Mae'r Ddeddf yn darparu gwell ffyrdd o wneud penderfyniadau gwell drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn:

- Ystyried y tymor hir
- Helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
- Datblygu dull integredig o weithredu
- Gweithredu mewn modd cydweithredol ac ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth

| | |
|---|---|
| | Prydlondeb ar Reilffordd Cymru a'r Gororau (o fewn 3 munud) |
| | Canslo Ar y Diwrnod |
| | Canslo Ymlaen Llaw |
| | Cwynion TrawsCymru fesul 100,000 o deithiau |
| | Teithiau TrawsCymru a gymerir gan Deithwyr |
| | Canslo gwasanaethau TrawsCymru |
| | Cwynion allanol ynglŷn â'r Gymraeg am bob 100,000 o deithiau |
| Pobl | Ymgeiswyr am swyddi sy'n fenywod |
| | Ymgeiswyr benywaidd sy'n cael cynnig rolau gyda TrC |
| | Cadw cydweithwyr |
| Cyllid | Gwariant Gweithredu |
| | Gwariant Cyfalaf |
| | Gwerthu Tocynnau |
| Cynaliadwyedd | Allyriadau Carbon Deuocsid am bob cilometr a deithiwyd gan deithwyr |

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# DIOGELWCH

## Diogelwch cydweithwyr

2 3

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
|---|---|
| 97.7% | 98.3% |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**

Y ganran gyffredinol o staff Rheilffyrdd TrC a oedd yn gweithio'n ddiogel ac nad oeddent yn agored i weithredoedd neu amodau anniogel, megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, digwyddiadau a ddaeth yn agos at niwed neu ddamweiniau.

**Trosolwg**

Gweithiodd 98.3% o gydweithwyr yn ddiogel yn ystod Ch1. Er gwaethaf tuedd barhaus o lefelau uwch na'r disgwyl o ddigwyddiadau, roedd lefelau disgwyliedig o niwed cyffredinol yn is. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys rhyngweithio â gwrthrychau ac offer neu lithriadau, bagliadau a chwympiau yn bennaf.

## Edrych tuag y dyfodol

Mae'r cynllun blynyddol ar gyfer Iechyd, Diogelwch a Gwytnwch Busnes wedi'i gymeradwyo i'w weithredu. Bydd y cynllun hwn yn cryfhau ein hymdrechion tuag at wireddu'r strategaeth 'un TrC' ac yn gwella ein perfformiad diogelwch.

## Digwyddiadau Diogelwch fesul 100,000 o Deithiau a gymerir gan Deithwyr

2 3

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
|---|---|
| 1.1 | 1.2 |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**

Nifer y digwyddiadau diogelwch sy'n ymwneud ag unrhyw gwsmer, teithiwr, neu aelod o'r cyhoedd fesul 100,000 o deithiau a gymerir gan deithwyr.

## Trosolwg

Roedd nifer y digwyddiadau diogelwch sy'n ymwneud â'n teithwyr o'i gymharu â nifer y teithiau a gymerir gan deithwyr yn parhau i fod ar yr un lefel yn Ch1. Mae digwyddiadau'n digwydd yn bennaf mewn gorsafoedd ac wrth fynd ar y trên neu wrth ddod oddi ar y trên. Mae achosion yn aml yn gysylltiedig ag ymddygiad cwsmeriaid, gan gynnwys meddwdod, brysio am drenau a diffyg gofal / sylw ar risiau. Rydym wedi cynyddu nifer y Camerâu a wisgir ar y Corff i'n cydweithwyr rheng flaen eu defnyddio. Mae hyn yn helpu i gadw cydweithwyr a staff yn ddiogel, yn gweithredu fel rhwystr i ymddygiad gwrthgymdeithasol a gall ddarparu tystiolaeth yr ydym yn ei rhannu â Heddlu Trafnidiaeth Prydain. Rydym wedi diweddaru ein Polisi a'n Gweithdrefnau Diogelu a fydd yn helpu i gynorthwyo'r rhai sydd fwyaf mewn perygl ar ein rhwydwaith.

## Edrych tuag at y dyfodol

Sefydlwyd y Grŵp Llywio Damweiniau Cwsmeriaid i ddarparu fforwm cydweithredol er mwyn i randdeiliaid rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Mae asesiad cynhwysfawr o'n data damweiniau cwsmeriaid yn ein galluogi i nodi meysydd targed ar gyfer gwella, darparu ymwybyddiaeth o ymddygiad a phryderon cwsmeriaid a gwelliant parhaus er mwyn cyflawni ein hamcanion.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CWSMERIAID

## Boddhad Cwsmeriaid

1 5

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
|---|---|
| 83.2% | 82.9% |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**

Rydym yn mesur boddhad cwsmeriaid gyda Wavelength, teclyn monitro a mesur gwasanaeth cwsmeriaid y diwydiant rheilffyrdd. Mae'n mesur pa mor fodlon yw ein cwsmeriaid gyda'u taith gyffredinol.

**Trosolwg**
Rydym wedi cynnal boddhad cwsmeriaid cymharol uchel y chwarter hwn, er gwaethaf ein gwaith trawsnewidiol mawr sy'n effeithio ar ein cwsmeriaid ac wedi golygu newidiadau i amserlenni o fis Mehefin. Rydym yn gwrando ar adborth ein cwsmeriaid ac yn gweithredu arno. Trwy gyflwyno mwy o'n fflyd newydd, amserlen newydd a chynyddu nifer ein criwiau trên, rydym yn gwella profiad ein cwsmer ac yn manteisio ar y seilwaith gwell.

**Edrych tuag at y dyfodol**
Gyda datblygiad parhaus ein trenau newydd ac agoriad Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid bysiau i gyflwyno gwasanaeth integredig. Ein nod yw gwella a datblygu arolwg cwsmeriaid mwy cadarn, gan gynyddu maint y sampl i ddefnyddio'r adborth i wella ein gwasanaethau.

## Cwynion fesul 100,000 o Deithiau Trên

1 5

| Q1 2023/24 | Q1 2024/25 |
|---|---|
| 160 | 95 |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**
Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd gan gwsmer neu gwsmer posibl am Reilffordd TrC fel cyfran o 100,000 o deithiau trên a gymerir gan deithwyr.

**Trosolwg**
Bu gostyngiad yn nifer cyfartalog cwynion cwsmeriaid fesul 100,000 o deithiau trên yn Ch1. Mae hyn oherwydd gostyngiad yn nifer y cwynion ynglŷn â dibynadwyedd sy'n gysylltiedig â'n perfformiad gwell. Rydym wedi blaenoriaethu cynnal profiad ardderchog i gwsmeriaid yn ystod y gwaith trawsnewid a'r newidiadau amserlen newydd, gan wella sut rydym yn ymateb i gwynion cwsmeriaid. Mae'r amser a gymerir i ymateb i gwynion wedi lleihau yn ystod y chwarter diwethaf.

**Edrych tuag at y dyfodol**
Rydym yn parhau i ddarparu gwybodaeth amser real i gefnogi cynllunio teithiau i gwsmeriaid. Rydym yn canolbwyntio ar fod yn ystwyth i ymateb i gyswllt cwsmeriaid ar adegau prysur ac yn ystod aflonyddwch.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CWSMERIAID

## Teithiau Trên a gymerir gan Deithwyr

1 2 5

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
|---|---|
| 5.6 M | 7.0 M |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**
Cyfanswm nifer y teithwyr rheilffordd a brynodd docynnau ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Mae hyn yn cynnwys Llinellau Craidd y Cymoedd a Chymru a'r Gororau.

## Trosolwg

Mae nifer y teithiau trên a gymerir gan deithwyr yn tyfu'n sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Teithiau a wnaed ar ein gwasanaethau Metro (pellter byr) welodd y twf mwyaf yn nhermau canrannol yn ystod Ch1.

## Edrych tuag at y dyfodol

Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella profiad y cwsmer i gynhyrchu twf pellach mewn teithiau a gymerir gan deithwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu ffyrdd haws i gwsmeriaid ddod o hyd i docynnau a'u prynu, yn ogystal â chynnig yr opsiwn gwerth gorau iddynt. Bydd hyn yn golygu y bydd tocynnau Talu Wrth Fynd yn cael eu cyflwyno ymhellach yn Ne-ddwyrain Cymru yn ystod y flwyddyn nesaf.

## Prydlondeb ar Linellau Craidd y Cymoedd (o fewn 3 munud)

1 5

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
|---|---|
| 83.3% | 87.5% |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**

Canran y gwasanaethau trên sy'n cyrraedd o fewn 3 munud i'r amser cyrraedd yn ôl yr amserlen, ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd. Cyfeirir at hyn yn fewnol fel Amser mae Teithwyr yn ei Golli. Defnyddir pwysoliad ar gyfer gorsafoedd rheilffordd sydd â'r niferoedd uchaf o gwsmeriaid, felly mae oedi mewn lleoliadau sydd â mwy o ymwelwyr yn cael mwy o effaith ar ganran yr amser mae teithwyr yn ei golli. Er enghraifft, mae oedi yn Heol y Frenhines Caerdydd yn cael mwy o effaith ar y ganran o'i gymharu â Threherbert.

## Trosolwg

Roedd ein prydlondeb ar Linellau Craidd y Cymoedd yn gryf iawn yn ystod dau fis cyntaf y chwarter. Fodd bynnag, gwnaeth ostwng ar ôl cyflwyno'r amserlen newydd ym mis Mehefin sy'n gwella amlder y gwasanaeth, o ganlyniad i'r problemau cychwynnol sy'n gysylltiedig â newidiadau i amserlenni. Roedd hyn hefyd yn cyd-daro â rhai problemau seilwaith mawr a effeithiodd yn sylweddol ar wasanaethau yn ystod wythnos gyntaf yr amserlen newydd.

## Edrych tuag at y dyfodol

Rydym yn cynyddu ein gallu cynnal a chadw ac yn darparu'r ddarpariaeth sefydlu arfaethedig er mwyn gwella argaeledd a dibynadwyedd ein fflyd, a fydd, yn ei dro, yn lleihau'r amser mae teithwyr yn ei golli. Rydym yn disgwyl y bydd y trenau Dosbarth 756, y bwriedir eu cyflwyno ddiwedd mis Hydref 2024, yn fwy dibynadwy ac yn gyflymach na'r fflyd bresennol, ac y bydd hefyd yn gwella perfformiad ein gwasanaethau. Yn ystod 2025 bydd trenau tram Dosbarth 398 yn cael eu cyflwyno a fydd yn golygu y gallwn hefyd leihau amseroedd teithio o fis Rhagfyr 2025, pan fydd amserlenni'n newid.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

CWSMERIAID

## Prydlondeb ar Reilffordd Cymru a'r Gororau (o fewn 3 munud)

1 5

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
| --- | --- |
| 69.1% | 77.4% |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**
Canran y gwasanaethau trên sy'n cyrraedd o fewn 3 munud i'r amser cyrraedd yn ôl yr amserlen ledled Cymru a'r Gororau, cyfeirir at hyn yn fewnol fel Amser mae Teithwyr yn ei Golli. Defnyddir pwysoliad ar gyfer gorsafoedd rheilffordd sydd â'r niferoedd uchaf o gwsmeriaid felly mae oedi mewn lleoliadau sydd â mwy o ymwelwyr yn cael mwy o effaith ar ganran yr amser mae teithwyr yn ei golli. Er enghraifft, mae oedi yng Nghaerdydd Canolog yn cael mwy o effaith i'r ganran o'i gymharu â Phont-y-pŵl & New Inn.

## Trosolwg
Fe welodd y ddarpariaeth gwasanaeth trên welliant drwy gydol y chwarter ar rwydwaith Cymru a'r Gororau. Mae cynnydd cyson wedi'i wneud wrth i drenau newydd sbon sydd wedi'u haerdymheru gymryd lle'r hen gerbydau a etifeddwyd. Mae'r trenau newydd, ynghyd â threnau Mark IV sy'n cael eu hehangu o bedwar cerbyd i bump, wedi sicrhau cynnydd sylweddol mewn capasiti ar ein llwybrau pellter hirach. Cynyddwyd amlder y gwasanaeth ar lein Glyn Ebwy ac ar lwybr Cheltenham, ac mae'r amserlen sy'n cynnwys trenau amlach ar lein Wrecsam - Bidston, gyda threnau bob 45 munud, wedi'i hymsefydlu ac yn perfformio'n dda.

## Edrych tuag at y dyfodol
Mae disgwyl i ragor o drenau Dosbarth 197 newydd sbon gael eu cyflwyno dros y misoedd nesaf. Bydd y newid yn yr amserlen a gynlluniwyd ar gyfer mis Rhagfyr 2024 yn elwa o'r gallu sydd gan y trenau newydd i gyflymu a brecio'n fwy effeithiol, gan leihau amseroedd teithio wrth barhau â'r lefelau perfformiad uwch a gyflawnwyd gan drenau'n ddiweddar.

## Canslo ar y Diwrnod

1 5

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
| --- | --- |
| 7.5% | 4.1% |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**
Canran y gwasanaethau trên a gafodd eu canslo ar y diwrnod ar draws y rhwydwaith fel cyfran o gyfanswm y gwasanaethau a nodir yn y cynllun trenau dyddiol.

## Trosolwg
Roedd ffigurau canslo ar y diwrnod yn gryf iawn ar gyfer dau fis cyntaf y chwarter, fodd bynnag, roeddent wedi gostwng ar ôl cyflwyno'r amserlen newydd, a wnaeth gyflwyno gwasanaethau amlach ar Linellau Craidd y Cymoedd. Roedd angen newid yr amserlen er mwyn i'n trenau trydan newydd ddechrau gwasanaethu. Roedd rhai o'r achosion o ganslo a'r newidiadau wedi'u hachosi gan brinder cerbydau. Bydd y sefyllfa hon yn gwella wrth i'r trenau newydd gael eu cyflwyno.

## Edrych tuag at y dyfodol
Mae digwyddiadau tywydd eithafol yn cynyddu dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf ac maent yn ffactor sylweddol o ran canslo ar y diwrnod. Rydym wedi cynhyrchu cynllun addasu a gwytnwch newid hinsawdd, a byddwn yn ymgorffori'r gofynion ym manylebau ein gwaith adnewyddu ar yr isadeiledd ar Linellau Craidd y Cymoedd. Byddwn hefyd yn ceisio canolbwyntio ar ddefnyddio data i lywio gofynion cynnal a chadw a gwaith adnewyddu mewn modd rhagweithiol, gan arwain at ddibynadwyedd uwch o ran seilwaith. Bydd canslo a achosir gan brinder cerbydau yn lleihau wrth i fwy o'r trenau newydd gael eu cyflwyno dros y misoedd nesaf. Mae gan lawer o'r trenau newydd fwy o gerbydau na'r trenau maen nhw'n eu disodli, a fydd yn golygu mwy o gapasiti ar draws y rhwydwaith.

## Canslo Ymlaen Llaw

1 5

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
|---|---|
| 1.1% | 0.3% |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**
Canran y gwasanaethau trên a gafodd eu canslo cyn 10yh y diwrnod cyn y daith fel cyfran o gyfanswm y gwasanaethau a nodir yn y cynllun trenau dyddiol.

### Trosolwg
Defnyddir canslo ymlaen llaw i roi rhybudd ymlaen llaw i deithwyr y bydd angen canslo neu newid trenau oherwydd prinder criwiau, problemau seilwaith difrifol neu dywydd gwael. Ychydig iawn o drenau gafodd eu canslo ymlaen llaw yn ystod y chwarter. Mae hyn yn adlewyrchu cynllunio adnoddau gofalus. Ar gyfer gyrwyr trenau, mae cam nesaf y cytundeb cyflog a chynhyrchiant tair blynedd wedi'i gyflawni, gyda dyddiau Sul bellach wedi'u cynnwys yn rhan o'r wythnos waith. Bydd hyn yn lleihau'r risg o brinder gyrwyr ar ddyddiau Sul.

### Edrych tuag at y dyfodol
Bydd cynllunio adnoddau yn sicrhau bod piblinell effeithlon o yrwyr dan hyfforddiant a goruchwylwyr trenau er mwyn i ni allu darparu gwelliannau i amserlenni yn y dyfodol, er mwn galluogi gyrwyr a goruchwylwyr presennol i fynychu rhaglenni hyfforddi ar gyfer trenau newydd, ac i sicrhau, er lles goruchwylwyr trenau, bod dyddiau Sul yn cael eu cynnwys yn rhan o'r wythnos waith yn 2025.

## Cwynion TrawsCymru fesul 100,000 o deithiau

1 5

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
|---|---|
| 22 | 19 |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**
Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd gan gwsmer neu gwsmer posibl am deithiau T1, T1C, T2, T3, T6, T10 TrawsCymru, fel cyfran o 100,000 o deithiau TrawsCymru a gymerwyd gan deithwyr.

### Trosolwg
Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer cyfartalog y cwynion fesul 100,000 o deithiau bws TrawsCymru wrth gymharu'r chwarter hwn â'r un chwarter y llynedd. Rydym wedi gweld perfformiad ac ansawdd y gwasanaeth yn gwella wrth i fysiau newydd ddechrau gwasanaethu ar y llwybrau T2 a T3.

### Edrych tuag at y dyfodol
Bydd cyflwyno systemau monitro contractau a systemau perfformiad newydd yn helpu i ddarparu gwasanaethau safon uchel i gwsmeriaid.

# CWSMERIAID

## Teithiau TrawsCymru a gymerir gan Deithwyr

1 2 5

| Ch1 2023/24 | CH1 2024/25 |
| --- | --- |
| 0.3 M | 0.3 M |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**
Cyfanswm nifer y teithwyr a gludwyd ar lwybrau T1, T1C, T2, T3, T6, T10 TrawsCymru.

**Trosolwg**
Mae nifer y teithiau bws a gymerir gan deithwyr ar ein rhwydwaith TrawsCymru yn parhau i dyfu, gyda chynnydd o 12.3% o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd. Bu cynnydd mewn teithiau hamdden gan ein bod wedi gwella amlder gwasanaethau T2, T3 a T10 ar benwythnosau.

**Edrych tuag at y dyfodol**
Byddwn yn ceisio cadw teithwyr trwy ddefnyddio ein fframwaith rheoli contractau er mwyn sicrhau safonau gwasanaeth cyson uchel ar y llwybrau bws TrawsCymru hynny yr ydym yn eu rheoli. Byddwn yn ceisio cynyddu nifer y teithwyr gan ganolbwyntio ar deithiau hamdden ar ein llwybrau sy'n cynnig golygfeydd hardd. Byddwn yn sicrhau bod prisiau tocynnau yn gyson a chynnig gwerth da am arian. Byddwn yn parhau i edrych ar opsiynau i gwsmeriaid gael defnyddio un tocyn i deithio i'w cyrchfan, boed hynny ar y trên neu'r bws.

## Canslo teithiau bws TrawsCymru

1 5

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
| --- | --- |
| N/A | 0.3% |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**
Canran y teithiau T1, T1C, T2, T3, T6, T10 a gafodd eu canslo ar y diwrnod. Nid yw'r data ar gael cyn Chwarter 2 2023/24.

**Trosolwg**
Mae achosion o ganslo ar deithiau bws yn parhau i fod yn isel ar draws llwybrau TrC TrawsCymru, ar lai nag 1%. Prif achosion canslo yw cau ffyrdd ar fyr rybudd ac argaeledd gyrwyr ad hoc.

## Edrych tuag at y dyfodol

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gweithredwyr llwybrau TrawsCymru sydd wedi'u contractio i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o wasanaethau'n cael eu canslo. Byddwn yn monitro ein contractau er mwyn helpu i ddarparu'r canlyniadau gorau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CWSMERIAID

**Cwynion allanol ynglŷn â'r Gymraeg am bob 100,000 o deithiau**

6

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
|---|---|
| 0.03 | 0.04 |

## Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol

Cwynion newydd am bob 100,000 o deithiau a gymerwyd gan deithwyr (TrawsCymru a rheilffyrdd) i Gomisiynydd y Gymraeg, pan nad oedd yr achwynydd wedi derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg gan TrC neu os oeddent yn anfodlon gyda phenderfyniad TrC ar fater yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

## Trosolwg

Er bod cynnydd bach wedi bod yn nifer y cwynion newydd fesul 100,000 o deithiau yn ystod y chwarter cyntaf o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, mae nifer y cwynion newydd fesul 100,000 o deithiau teithwyr wedi lleihau o'i gymharu â blwyddyn lawn 2023/24. Roedd cwynion yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion yr oeddem eisoes yn ymwybodol ohonynt ac yr ydym yn gweithio i fynd i'r afael â nhw drwy waith parhaus ar ein fflyd drenau a'n gorsafoedd. Mewn achosion lle y gellid cymryd camau i gywiro'r sefyllfa ar unwaith, cawsant eu cywiro ac fe olygodd hyn nad oedd angen gweithredu pellach gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## Edrych tuag at y dyfodol

Rydym yn gweithio i sicrhau bod ein fflyd drenau a'n gorsafoedd rheilffordd yn cadw at safonau a gofynion y Gymraeg. Er mwyn sicrhau tryloywder yn y maes hwn, byddwn yn cyhoeddi adroddiad cydymffurfio ar gyfer y Gymraeg yn ogystal â strategaeth y Gymraeg.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# POBL

## Ymgeiswyr am swyddi sy'n fenywod

4 5

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
| --- | --- |
| 28.9% | 27.3% |

### Disgrifiad o’r Dangosydd Perfformiad Allweddol

Canran y bobl sy'n gwneud cais am rolau TrC sy'n fenywod. Yn hanesyddol, mae'r diwydiant trafnidiaeth wedi cyflogi llai o fenywod na dynion. Rydyn ni eisiau newid hynny. Rydym yn adeiladu tîm amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

### Trosolwg

Rydym wedi gweld gostyngiad o 1.6 % yn nifer yr ymgeiswyr benywaidd o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd, er gwaethaf ein hymdrech parhaus i hyrwyddo ein cyfleoedd. Rydym wedi defnyddio hysbysebu wedi'i dargedu sy'n cynnwys modelau rôl i ddenu menywod i rolau gyrru a pheirianneg.

### Edrych tuag at y dyfodol

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar fod yn un o gyflogwyr cynhwysol mwyaf blaenllaw Cymru a gweithio tuag at greu rhwydwaith trafnidiaeth cynhwysol.  Byddwn yn parhau i gyflwyno ymgyrchoedd recriwtio gweithredu cadarnhaol i hyrwyddo ein cyfleoedd er mwyn gweld cynnydd mewn ceisiadau ar gyfer rolau Peirianneg a Gyrru Trên gan fenywod o bob cefndir. Byddwn yn lansio'r brentisiaeth gradd gyntaf mewn cerbydau er mwyn denu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol.

## Ymgeiswyr benywaidd sy'n cael cynnig rolau gyda TrC

4 5

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
|---|---|
| 32.3% | 28.0% |

### Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol

Canran yr ymgeiswyr benywaidd sy'n llwyddo i gael rôl yn TrC. Rydym yn gweithio i adeiladu tîm amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

### Trosolwg

Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y menywod sy'n dod i mewn i'r busnes, gan arwain at ostyngiad o 4.3% wrth gymharu Ch1 2024/25 â'r un chwarter y llynedd.  Fodd bynnag, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y menywod mewn rolau Gyrru Trên, o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd.

### Edrych tuag at y dyfodol

Byddwn yn parhau i fynychu ffeiriau gyrfaoedd ac ymweld ag ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n cyfleoedd gyrfaol. Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid cymunedol i nodi a dileu unrhyw rwystrau i ddenu talent amrywiol. Byddwn yn fentrus ac yn cymryd camau cadarnhaol drwy warantu cyfweliadau ar gyfer rolau sy'n benodol ar gyfer menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, lle nad ydym yn cael ein cynrychioli'n ddigonol.



# POBL

## Cadw cydweithwyr

1 4

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
|---|---|
| 98.1% | 98.9% |

### Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol

Canran y cydweithwyr TrC a arhosodd gyda TrC yn ystod y flwyddyn. Rydym yn monitro hyn ar y cyd â rhesymau cydweithwyr TrC dros adael y sefydliad, er mwyn i ni ddyfeisio mentrau i gynyddu cyfraddau cadw gweithwyr er mwyn ysgogi gwell perfformiad a gwella ein canlyniadau busnes, a hynny oll tra'n lleihau'r risg o effeithiau negyddol ar berfformiad TrC.

### Trosolwg

Gostyngodd canran y bobl a adawodd y cwmni y chwarter hwn i 1.1% o'i gymharu â 1.9% yn yr un chwarter y llynedd, gan ddangos tuedd gadarnhaol. Rydym yn parhau i fonitro'r cydweithwyr sy'n gadael drwy ein fframwaith cynllunio'r gweithlu er mwyn nodi unrhyw dueddiadau.

### Edrych tuag at y dyfodol

Byddwn yn parhau i hyrwyddo a chyflwyno rhaglen sy'n cynnwys digwyddiadau wedi'u cynllunio sydd yn annog lles a ffyrdd iach o fyw. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi ein cydweithwyr i dyfu a datblygu yn eu gyrfaoedd trwy ddarparu hyfforddiant ac addysg fewnol ac allanol. Byddwn yn ehangu cyfleoedd drwy bartneriaethau â Llywodraeth Cymru a Network Rail i gynnig secondiadau o fewn y sefydliadau hynny. Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein rhaglenni prentisiaeth a graddedigion arobryn, gan weithio i ddenu a chadw pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiant.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CYLLID

## Gwariant Gweithredu

| Gwariant y flwyddyn ariannol 2023/24 | Rhagolygon y flwyddyn ariannol 2024/25 | Cyllid y flwyddyn ariannol 2024/25 |
|---|---|---|
| £396.9 M | £436.8 M | £438.8 M |

1

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**
Gwariant gweithredu dros y flwyddyn gyfan.

**Trosolwg**
Mae rhagolygon y flwyddyn gyfan yn cyd-fynd â Chyllideb TrC o fewn y Cynllun Busnes. Mae symudiad o'r flwyddyn flaenorol yn adlewyrchu costau uwch sy'n gysylltiedig â pharodrwydd ar gyfer cyflwyno mwy o wasanaethau.

**Edrych tuag at y dyfodol**
Rydym yn parhau i adolygu gwariant ar draws TrC i nodi risgiau a chyfleoedd a chynnwys heriau rheoli ac arbedion effeithlonrwydd yn y broses o osod cyllidebau.

## Gwariant Cyfalaf

1

| Gwariant y flwyddyn ariannol 2023/24 | Rhagolygon y flwyddyn ariannol 2024/25 | Cyllid y flwyddyn ariannol 2024/25 |
|---|---|---|
| £446.4 M | £331.2M | £331.9 M |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**
Gwariant cyfalaf dros y flwyddyn gyfan.

**Trosolwg**
Mae rhagolygon y flwyddyn gyfan yn parhau i gyd-fynd â Chyllideb TrC o fewn y Cynllun Busnes, gyda'r rhan fwyaf o'r gwariant ar Linellau Craidd y Cymoedd yn ogystal â cherbydau rheilffyrdd newydd er mwyn trawsnewid y gwasanaethau.

**Edrych tuag at y dyfodol**
Rydym yn parhau i adolygu gwariant ar draws TrC i nodi risgiau a chyfleoedd a chynnwys heriau rheoli ac arbedion effeithlonrwydd yn y broses o ragweld gwariant.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CYLLID

## Gwerthiant tocynnau

1

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
|---|---|
| £31.4 M | £39.1 M |

**Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol**
Y refeniw a enillir drwy werthu tocynnau trên; cyfeirir at hyn fel arfer fel Refeniw Teithwyr (er bod Incwm Tocynnau yn cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol ar draws y diwydiant).

**Trosolwg**
Mae nifer y tocynnau a werthwyd wedi cynyddu'n sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn yn Ch1. Ysgogwyd y cynnydd hwn yn bennaf gan dwf yn nifer y teithiau a gymerir gan deithwyr, yn enwedig yn Ne Cymru.

**Edrych tuag at y dyfodol**
Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella profiad y cwsmer i gynhyrchu twf pellach yn nifer y teithiau a gymerir gan deithwyr i yrru twf refeniw. Byddwn yn darparu prisiau rheoli refeniw mwy deinamig ar draws y rhwydwaith ac yn archwilio dull mwy arloesol o osod prisiau tocynnau a phrisio teithiau yn ystod 2024/25.

# CYNALIADWYEDD

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Allyriadau Carbon Deuocsid
am bob cilometr a deithiwyd gan deithwyr

2 3 4 7

| Ch1 2023/24 | Ch1 2024/25 |
| --- | --- |
| 83.8 | 83.0 |

### Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad Allweddol

Cyfanswm allyriadau Cwmpas 1 Carbon deuocsid mewn gramau a gynhyrchir gan ein gwasanaethau rheilffordd am bob cilometr a deithiwyd gan deithwyr. Allyriadau Cwmpas 1 yw'r rhai sy'n deillio o'r defnydd o danwydd gan ein trenau. Mae'r fethodoleg hon yn unol â meini prawf adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfer allyriadau carbon.

### Trosolwg

Gostyngodd allyriadau carbon deuocsid cerbydau am bob cilometr a deithiwyd gan deithwyr gan 0.9% yn Ch1 24/25 o'i gymharu â Ch1 23/24, wrth i ni symud i ffwrdd o drenau hŷn a thuag at drenau newydd, mwy effeithlon yn ogystal â chynyddu nifer y teithwyr sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

### Edrych tuag at y dyfodol

Rydym yn cyhoeddi Cynllun Rheoli Carbon a strategaeth effeithlonrwydd ynni er mwyn cynllunio i ostwng ein hallyriadau carbon.